# PANEL YR AELODAU O RAN APELIADAU CLUDIANT O'R CARTREF I'R YSGOL.

Dydd Llun, 18 Rhagfyr 2017

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd H.A.L. Evans (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:**
G. Davies, A.L. Fox and J.D. James

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
A. Evans, Rheolwr Gweithrediadau - Cludiant Teithwyr
G. Morgan, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd
K. Morris, Cyfreithiwr Cynorthwyol
S. Williams, Uwch Swyddog Trefniant Ysgolion

**Committee Room 2, 3 Spilman Street, Carmarthen - 2.40 - 3.00 pm**

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Ni chafwyd dim ymddiheuriadau am absenoldeb

## 2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL

Ni ddatganwyd dim buddiannau personol yn y cyfarfod.

## 3. GORCHYMYN I'R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, na fyddai'r eitem ganlynol yn cael ei chyhoeddi gan fod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym Mharagraff 12 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.**

## 4. I YSTYRIED APÊL GAN YMGEISYDD DE YN ERBYN PENDERFYNIAD YR AWDURDOD SEF PEIDIO Â DARPARU CLUDIANT AM DDIM I'R YSGOL

Yn sgil gweithredu'r prawf budd y cyhoedd **PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL**, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod 3 uchod, beidio â chyhoeddi cynnwys yr adroddiad am ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig ynghylch unigolyn penodol.

Yr oedd y prawf budd y cyhoedd mewn perthynas â'r mater hwn yn ymwneud â'r ffaith bod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth bersonol oedd yn ymwneud â'r ymgeisydd. Er y byddai datgelu'r wybodaeth yn ategu tryloywder ac atebolrwydd o ran y broses o wneud penderfyniad, yr oedd y budd i'r cyhoedd o ran cadw cyfrinachedd yn drech na'r budd i'r cyhoedd o ran datgelu'r wybodaeth, am fod angen sicrhau na fyddai modd adnabod yr ymgeisydd a'i deulu/a'i theulu.

Croesawodd y Cadeirydd swyddogion o wasanaethau'r Gyfraith, yr Amgylchedd ac Addysg a Gwasanaethau Plant i'r cyfarfod.

Atgoffwyd aelodau'r Panel eu bod, yn eu cyfarfod ar 24 Tachwedd 2017, wedi gwrthod apêl gan D.E. yn erbyn y penderfyniad i beidio â darparu cludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol. Wedyn, roedd yr apelydd wedi cyflwyno tystiolaeth feddygol ategol a thystiolaeth ategol arall ac roedd y Panel wedi ailystyried ac wedi gwrthod yr apêl eto.

Bu'r Pwyllgor yn ystyried sylwadau ysgrifenedig yr apelydd mewn perthynas â phenderfyniad Panel Adolygu Cam 1 i wrthod darparu cludiant am ddim i D.E. gan fod cyfeiriad y cartref o fewn y pellter cerdded statudol i ysgol ddynodedig yr Awdurdod Addysg Lleol, ac nad oedd felly'n cydymffurfio â'r meini prawf ym mholisi'r Cyngor ar gyfer rhoi cymorth.

Ystyriodd y Panel sylwadau'r swyddogion adrannol, ynghyd ag amgylchiadau unigol yr achos. Hefyd gofynnodd y Panel am eglurhad ynghylch elfennau o Bolisi'r Awdurdod ynghylch Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol, argaeledd bws talu a theithio ac argaeledd cludiant cyhoeddus o gyfeiriad cartref D.E. i'r ysgol ddewisedig.

**PENDERFYNWYD cadarnhau'r apêl a gyflwynwyd gan D.E. oherwydd amgylchiadau eithriadol yr achos.**

____________________________ ____________________
**CADEIRYDD** **DYDDIAD**